WOMEN'S
HEALTH
GROUP

bpas British Pregnancy Advisory Service

# COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD DDYDD MAWRTH 8 GORFFENNAF 2021

## 14:00 – 15:30, ZOOM

YN BRESENNOL: Jenny Rathbone AS (Cadeirydd), Joyce Watson AS, Laura Jones AS, Sioned Williams AS, Rhun ap Iorwerth AS, Sam Rowlands AS

HEYFD YN BRESENNOL: Nick Evans (Swyddfa Laura-Ann Jones), Lucien Wise (Swyddfa Jenny Rathbone), Louise Dunk (Sgrinio Serfigol Cymru), Kate Sanger (Ymddiriedolaeth Canser Ceg y Groth Jo), Mairead Lyons (Coleg y Brenin, Llundain), Ann Jones (NFWI), Molly Boydon (BPAS), Donagh Stenson (BPAS), Alison Scouller (Cymdeithas Iechyd Sosialaidd Cymru), Debbie Shaffer (FTWW), Rhian Connick (NFWI-Cymru), Elaine Hoss (Bwrdd Iechyd Hywel Dda), Sarah Thomas (NFWI- Cymru), Dee Montague (FTWW), Helen Bayliss (Ymddiriedolaeth GIG Cwm Taf), Helen Munro (Bwrdd Iechyd Hywel Dda), Bronwen Davies (ARC), Jordan Brewer (Cymorth i Fenywod Cymru), Jane Dickson (BIP Aneurin Bevan), Rachael Clarke (BPAS), Pauline Brelsford (ARC), Judy Thomas (Fferylliaeth Gymunedol Cymru), Hannah Wright (Ymddiriedolaeth Canser Ceg y Groth Jo)

YMDDIHEURIADAU: Jayne Bryant AS, Mike Hedges AS, Sarah Murphy AS, Helen Rogers (RCM Cymru), Angela Gorman (ARC)

## 1. CROESO A CHYFLWYNIADAU

Agorodd Molly Boydon (MB) a Rachael Clarke (RC) y cyfarfod a gofynnwyd i'r aelodau gyflwyno'u hunain.

## 2. SGRINIO SERFIGOL YNG NGHYMRU

**Sgrinio serfigol yng Nghymru:** Rhoddodd Louise Dunk (Pennaeth Rhaglen Sgrinio Serfigol Cymru) ddarlun cyffredinol o nodau a swyddogaeth y rhaglen sgrinio serfigol yng Nghymru.

Mae tua 170 achos o ganser ceg y groth yng Nghymru bob blwyddyn. Gall y perygl o gael canser ceg y groth leihau 70% os caiff merched eu sgrinio. Mae 98% o achosion o ganser ceg y groth yn gysylltiedig â HPV. Cyflwynodd Cymru brofion HPV fel y prif brawf sgrinio ym mis Medi 2018. O ran rhagweld y risg o gael clefyd difrifol iawn, mae profion HPV yn fwy manwl gywir na'r broses o archwilio celloedd (cytoleg) yn unig.

Mae'r ffactorau sy'n atal menywod rhag cadw apwyntiadau sgrinio serfigol yn cynnwys y canlynol: Teimlo embaras, delwedd corff / cywilydd o'r corff, diffyg ymwybyddiaeth o ganser ceg y groth fel problem iechyd, amser a hwylustod, rhwystrau diwylliannol, gwybodaeth yn anodd ei chael felly mae'n anodd gwneud dewis gwybodus.

Mae'r broses o wella gwasanaethau'n dibynnu ar y canlynol: Gwella ffyrdd o sicrhau bod merched yn gwneud dewis gwybodus a chodi ymwybyddiaeth, ymgysylltu â chymunedau a phartneriaid yn y trydydd sector, gwybodaeth hygyrch ar fformatau priodol, ymgyrchoedd cenedlaethol a defnyddio llwyfannau cyfryngau cymdeithasol, posteri a gwybodaeth mewn amrywiaeth eang o leoliadau,

sicrhau bod apwyntiadau sgrinio yn hyblyg ac yn hwylus, galluogi i ferched gymryd eu sampl eu hunain.

**Ymddiriedolaeth Canser Ceg y Groth Jo:** Kate Sanger (Pennaeth Polisi a Chyfathrebu)

Addysg

Dylid ystyried y ffactorau croestoriadol sy'n atal merched rhag cael eu sgrinio a'u hystyried o safbwynt cwrs bywyd hefyd, gan y bydd merched gwahanol yn wynebu problemau gwahanol. Un rhwystr allweddol yw diffyg addysg ynghylch y cysylltiad rhwng HPV a chanser. Mae'r pigiadau HPV a roddir mewn ysgolion yn atal tua 70% o achosion o ganser ceg y groth, ac mae'r brechlyn hwn hefyd yn gyfle pwysig i addysgu pobl ifanc am sgrinio a'r cysylltiad rhwng HPV a chanser, sef cysylltiad nad yw nifer yn ymwybodol ohono.

Sgrinio

Yn ogystal â'r rhwystrau a grybwyllwyd eisoes, gall poen yn ystod y broses sgrinio - yn enwedig i ferched sy'n mynd drwy'r menopos ac sy'n dioddef o sychder y fagina - fod yn rhwystr. Bydd gan gymunedau gwahanol anghenion gwahanol; mewn cymunedau gwledig llai, er enghraifft, lle gallai nyrs sgrinio fod yn ffrind teuluol, mae merched yn llai tebygol o deimlo'n gyfforddus yn cael eu sgrinio. Dywedir wrth ferched lesbiaidd yn aml nad oes angen iddynt gael eu sgrinio ac mae tua 60% o ferched anabl yn dweud eu bod yn teimlo na allant fynd i'w hapwyntiad sgrinio. Mae Covid yn her barhaus; nid yw merched yn siŵr a ddylent gadw eu hapwyntiad sgrinio.

Wrth geisio cynyddu'r nifer sy'n cael eu sgrinio, nid oes unrhyw un ateb sy'n addas i bawb. Mae meddygon teulu yn allweddol gan mai nhw sy'n adnabod eu cymunedau orau ac fe allant gynnig atebion. Yn aml, bydd merched yn dod ar draws staff anghlinigol yn gyntaf yn ystod y broses sgrinio, felly gallai hyfforddi staff anghlinigol i fod yn ymwybodol o'r problemau y mae merched yn eu hwynebu o ran y broses sgrinio helpu i sicrhau profiadau cadarnhaol. Mae llawer o ferched nad ydynt yn gwybod sut y gallant eirioli drostynt eu hunain i sicrhau bod y broses sgrinio mor gyfforddus â phosibl.

Gwybodaeth ar ôl sgrinio

Mae angen rhoi gwybodaeth i ferched i ganiatáu iddynt ddeall canlyniadau'r sgrinio. Nid oes fawr o ddealltwriaeth o HPV ac mae'r cwestiynau mwyaf cyffredin a gaiff Jo yn ymwneud â deall beth mae canlyniad HPV positif yn ei olygu.

**Astudiaeth Coleg y Brenin, Llundain - merched yn casglu eu sampl eu hunain ar gyfer prawf HPV:** Mairead Lyons (Uwch Ymgynghorydd i YouScreen, astudiaeth ddichonoldeb yn ymwneud â chasglu'ch sampl eich hun ar gyfer prawf HPV). Ar hyn o bryd mae astudiaeth yn cael ei chynnal yng Ngogledd Llundain lle mae merched yn casglu eu sampl eu hunain ar gyfer prawf HPV. Yn yr ardal hon, mae merched yn amharod iawn i gael eu sgrinio ar gyfer canser ceg y groth, ac mae'r astudiaeth yn targedu merched 25-64 oed yn benodol. Y nod yw dangos y byddai rhoi'r gallu i ferched gasglu eu sampl HPV eu hunain yn arwain at gynnydd yn y nifer a fyddai'n cael eu sgrinio.

Mae astudiaethau blaenorol yn dangos bod caniatáu i ferched gasglu eu sampl eu hunain ar gyfer prawf HPV yn ddull effeithiol o gynyddu niferoedd a bod y broses yn dderbyniol iawn iddynt. Mae'n caniatáu i ferched gasglu sampl yn eu cartref eu hunain ar adeg sy'n hwylus iddynt hwy. Os bydd merch yn anfon sampl sy'n dangos nad oes ganddi HPV, bydd dyddiad ei hapwyntiad sgrinio nesaf yn cael ei drefnu. Os yw'r canlyniad yn bositif, caiff ei gwahodd i gael ei sgrinio eto a bydd yn dilyn y prif lwybr sgrinio. Mae astudiaethau eraill yn dangos bod merched yn barod iawn i gadw'r apwyntiadau dilynol hyn.

Mae trefniadau i ferched gasglu eu sampl eu hunain ar gyfer prawf HPV ar waith mewn llawer o wledydd eraill ac mae'n rhoi’r grym yn nwylo merched. Mae KCL yn obeithiol y bydd yr astudiaeth yn cynhyrchu gwybodaeth ddefnyddiol ar gyfer datblygu llwybrau yn y dyfodol, yn enwedig cynnig dewis i ferched.

Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliadau'r Merched - Cymru:

Mae'r ymgyrch ‘5 munud sy'n bwysig’ yn ceisio codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd sgrinio a chynorthwyo merched i wneud penderfyniadau gwybodus mewn perthynas â sgrinio. Mae'r ymgyrch wedi cynhyrchu deunyddiau i chwalu’r camsyniadau ac i annog aelodau i sgwrsio’n agored gyda’u ffrindiau a’u teuluoedd am sgrinio. Y llynedd, lansiwyd arolwg yng Nghymru a Lloegr i ddeall agweddau tuag at y syniad o alluogi merched i gasglu eu samplau eu hunain i’w sgrinio ar gyfer HPV ac agweddau tuag at strategaethau gwahanol gyda'r nod o gynyddu'r nifer sy'n cael eu sgrinio. Mae 4 papur ar themâu gwahanol ar wefan y Ffederasiwn.

Dangosodd yr ymatebion: nad oedd 53% o’r ymatebwyr yn ymwybodol bod profion sgrinio serfigol yng Nghymru bellach yn profi am HPV a bod camddealltwriaeth ynghylch trosglwyddo HPV a stigma’n ymwneud â chael diagnosis o HPV. Un o'r ffactorau allweddol sy’n atal merched rhag cadw eu hapwyntiad sgrinio yn y feddygfa oedd prinder amser; dywedodd 64% o'r ymatebwyr nad oedd eu meddyg teulu yn cynnig apwyntiadau sgrinio serfigol ar y penwythnos a dywedodd 36% arall nad oeddent yn gwybod a oedd apwyntiadau o’r fath ar gael. Dylai byrddau iechyd lleol ystyried strategaethau i wella presenoldeb, fel mwy o apwyntiadau ar y penwythnos a hysbysebu’r apwyntiadau hyn os oeddent ar gael.

Byddai mwy hefyd yn debygol o gael eu sgrinio pe baent yn cael casglu eu sampl eu hunain ar gyfer prawf HPV. Yng Nghymru mae merched yn gefnogol iawn i'r syniad. Dywedodd 43% o ferched 25-64 oed y byddai'n well ganddynt wneud hynny. Dywedodd 60% o'r merched 65 oed a hŷn y byddai'n well ganddynt becyn profi gartref.

## 3. CYFANSODDIAD Y GRŴP AC ETHOL CADEIRYDD

Cadarnhawyd bod aelodau o’r blaid Lafur, y Ceidwadwyr a Phlaid Cymru yn y cyfarfod. **Cafodd y Grŵp Trawsbleidiol ar Iechyd Menywod ei sefydlu’n ffurfiol.**

Cynigiodd Joyce Watson AS Jenny Rathbone yn Gadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol, ac eiliwyd hyn gan Sioned Williams AS. **Etholwyd Jenny Rathbone yn Gadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Iechyd Menywod ar gyfer 2021.**

Cadarnhawyd hefyd y byddai BPAS yn fodlon darparu cymorth ysgrifenyddol ar gyfer y Grŵp. **Penodwyd BPAS i weithredu fel Ysgrifenyddiaeth y Grŵp.**

## 4. TRAFOD Y MATERION A GODWYD GAN Y SIARADWYR

Trafodwyd sut y gellid gwella addysg, a ph’un a allai fframwaith cenedlaethol ymdrin â’r prif rwystrau. Trafodwyd hefyd y posibilrwydd o ddatblygu cynllun peilot newydd a fyddai’n defnyddio’r broses sgrinio serfigol fel cyfle i addysgu merched am y menopos:

- Mae sicrhau bod negeseuon yn cael eu clywed yn y cartref yn uniongyrchol yn rhan bwysig o sicrhau bod merched yn cael eu sgrinio a chael gwared ar y stigma sydd ynghlwm wrth HPV; mae rhoi gwybodaeth mewn ysgolion yn ffordd allweddol o sicrhau bod merched yn cadw at eu hapwyntiadau o’r dechrau un.

- A allai fframwaith cenedlaethol fynd i'r afael â gwahaniaethau mewn gwasanaethau a'r modd y cânt eu hyrwyddo, a'r effaith niweidiol a gaiff hyn? Mae Sgrinio Serfigol Cymru yn croesawu'r ymdrechion i ddatblygu gwasanaethau'n genedlaethol ac yn gweithio'n agos gyda gwasanaethau meddygon teulu i geisio sicrhau bod gwasanaethau ar gael i ferched bob amser, gan gynnig hyfforddiant pan fo angen a gweithio'n agos gyda byrddau iechyd ac unrhyw unigolyn sydd â diddordeb brwd mewn gwella gwasanaethau sgrinio.
- Mae'r syniad o greu fframwaith cenedlaethol i wella gofal sylfaenol yn un da, ond mae'n bwysig ystyried sut mae agweddau eraill ar fywydau merched yn effeithio ar lwyddiant y gwasanaeth sgrinio, er enghraifft sicrhau bod merched yn gallu gadael eu gwaith i fynd i'w hapwyntiadau. Mae effaith Covid yn peri pryder ynghylch sut y bydd pobl agored i niwed yn teimlo tuag at ddychwelyd i leoliadau gofal iechyd.
- **Canser ceg y groth yw'r canser sy'n lladd y nifer fwyaf o ferched o dan 35 oed**. Sut rydym yn sicrhau ein bod ni'n siarad â merched ifanc am y perygl? A yw Sgrinio Serfigol Cymru yn paratoi deunydd i bobl ifanc i'w cyflwyno i'r gwasanaeth sgrinio? Mae Sgrinio Serfigol Cymru yn gweithio gyda'r tîm imiwneiddio ar faterion addysgol, ac mae fideo cartŵn wedi'i pharatoi ar gyfer pobl ifanc 25-30 oed. A allem ni ddefnyddio hwnnw ar gyfer y grŵp oedran iau?
- Mae'r byrddau iechyd wedi cael llythyr gan y Dirprwy Brif Swyddog Meddygol yn gofyn sut y maent yn gweithredu NG23 yn ymwneud â'r menopos. A ellid cyfuno hyn â sgrinio serfigol a rhoi arolwg byr i ferched sy'n cael eu sgrinio ar gyfer canser ceg y groth i roi rhagor o wybodaeth iddynt am symptomau'r menopos? Gallai helpu merched i adnabod eu symptomau eu hunain a'u hannog i ofyn am gymorth gan eu meddyg teulu os oes angen. Trafodir hyn ymhellach all-lein a hefyd yn y cyfarfod nesaf yn ymwneud â gofal i ferched sy'n mynd drwy'r menopos.

## 5. CYFARFODYDD YN Y DYFODOL (PYNCIAU, FFORMAT A DYDDIADAU)

**Pynciau i'w trafod yn y dyfodol:**

Iechyd meddwl merched, gofal iechyd i ferched BAME, poen yn ystod gofal iechyd a lleoliadau cleifion allanol gynaecolegol, cynllun iechyd i ferched yng Nghymru, merched ac alcoholiaeth

**Y cyfarfod nesaf:** Hydref 2022, Zoom, Pwnc: **Y Menopos**